# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa Ddydd Scallywags – Dinbych**

**Meithrinfa Ddydd Scallywags**
**Llwyn Isa Cottage**
**Llanrhaeadr**
**LL16 4NG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**27 Mehefin 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Meithrinfa ddydd fechan yw 'Scallywags' a sefydlwyd 30 o flynyddoedd yn ôl. Mae wedi'i lleoli mewn ardal wledig ger Dinbych ac mae wedi'i chofrestru i ofalu am hyd at 12 o blant ar unrhyw un adeg. Mae'r gwasanaeth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 5.30pm. Y person cofrestredig yw Anna Roberts, a hithau hefyd yw'r person â gofal. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at gynnig gweithredol y Gymraeg, sy'n golygu bod modd i blant a rhieni gyfathrebu â'r staff yn ddwyieithog, yn Gymraeg neu'n Saesneg, heb orfod gofyn am hyn. Fodd bynnag, nid yw'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg hyd yn hyn.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae’r plant yn fodlon eu byd ac yn mwynhau treulio amser yn y gwasanaeth. Maen nhw'n mynegi eu hunain ac yn gwneud penderfyniadau'n hyderus, gan wybod y bydd eu dewisiadau’n cael eu parchu. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda, ac maen nhw'n ymatebol i anghenion pob plentyn.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod gofod diogel ac addas ar gael i’r plant chwarae ynddo a’i archwilio, dan do ac yn yr awyr agored. Glynir at bolisïau a gweithdrefnau, a chânt eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae gan yr arweinwyr bartneriaethau da â'r rhieni a'r asiantaethau allanol y maen nhw'n gweithio gyda nhw er mwyn cyflwyno buddion a gwella'r gwasanaeth i blant, staff, rhieni a gofalwyr.

### 2. Gwelliannau

Mae'r feithrinfa wedi cael ei haddurno. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu, mae adnoddau hanfodol wedi cael eu hadnewyddu a phrynwyd rhai newydd fel rhan o adolygiad ansawdd gofal parhaus y gwasanaeth. Caiff presenoldeb staff a phlant ei gofnodi bellach ar gofrestri a gedwir yn nyddiadur dyddiol y person â gofal, yn dilyn argymhelliad yn ystod yr arolygiad blaenorol. Mae'r gwasanaeth wedi parhau â'i ymrwymiad i roi dechrau iach mewn bywyd i blant, gan ennill lefel 3 yn y 'Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy'.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion o ran arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth a chael person â gofal yn bresennol. Argymhellwyd gwella ansawdd gofal a datblygiad y plant a gwella gweithgareddau a gynlluniwyd, a'r amgylchedd, trwy sicrhau bod llwybrau cerdded yn glir.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi ymgartrefu, ac yn teimlo'n ddigon cyfforddus i fynegi eu barn. Mae ganddyn nhw berthynas gadarnhaol â'r staff ac maen nhw'n cael cyfleoedd i ddysgu sgiliau annibynnol a gwneud dewisiadau. Maen nhw'n profi digonedd o weithgareddau awyr agored ac yn cael eu hannog i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae'r plant yn gallu mynegi eu hunain ac maen nhw'n teimlo'n gyfforddus wrth wneud hyn.

Roedd y plant yn mynegi eu safbwyntiau a'u barn yn hyderus ac roeddent yn awyddus i chwarae. Roedd pob ymdrech i gyfathrebu â'r staff yn cael ei gwerthfawrogi ac roedd y plant yn hyderus y byddai'r staff yn gwrando arnynt. Roedd y plant yn gallu gwneud dewisiadau ynglŷn â'r hyn roeddent am ei wneud. Er enghraifft, roedd gweithgareddau wedi'u gosod ar lawr yr ystafell chwarae, ac roedd y plant yn gallu symud o gwmpas fel y mynnent a dewis pa rai roeddent eisiau chwarae â nhw. Roedd un plentyn yn teimlo'n ddigon cyfforddus i ddewis peidio â chau'r sip ar ei gôt cyn mynd allan. Parchwyd ei ddymuniadau, a phan newidiodd ei feddwl yn ddiweddarach a gofyn am help, ymatebodd y staff yn briodol a chyda chynhesrwydd. Roedd hoffterau'r plant yn cael eu hystyried hefyd trwy gydol y diwrnod, gyda gweithgareddau y gwyddai'r staff eu bod yn eu mwynhau'n cael eu cynnig yn ystod amser chwarae rhydd. Fodd bynnag, roedd rhai adnoddau'n cael eu storio ar silffoedd uchel, gallai'r plant bwyntio at yr hyn roedden nhw ei eisiau oherwydd gallent weld y lluniau ar ochr y bocsys, ond yn ddelfrydol, dylai'r holl adnoddau fod o fewn cyrraedd hawdd i'r plant. Cafodd un plentyn a oedd eisiau aros y tu allan i barhau â gweithgaredd sialc ei annog i fynd i mewn a chymryd rhan mewn gweithgaredd gyda'i ffrindiau. Mewn rhai achosion, byddai'r plant yn elwa ar gael dewis chwarae y tu mewn neu'r tu allan.

Mae'r plant yn cael digon o gyfleoedd i fynegi eu barn a gwneud dewisiadau, ond mae angen mwy o hyblygrwydd o ran caniatáu mynediad rhydd i'r awyr agored ac i'r adnoddau y tu mewn.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn hapus, yn gyfforddus a hyderus.

Gwelsom fod y naw o blant a oedd yn bresennol, a oedd rhwng saith mis a thair blwydd oed, yn hapus ac yn gyfforddus yn eu hamgylchoedd. Roedd y plant yn chwarae'n dda ac yn gyfarwydd â'r gweithgareddau a oedd ar gael a'r trefniadau beunyddiol, ac roeddent wedi ffurfio perthynas glòs â'r staff. Roedd y plant yn gallu gofyn am gymorth gan staff pan oedd arnyn nhw ei angen. Er enghraifft, roedd y plant yn mynd at y staff trwy gydol y sesiwn

i ofyn am help i nôl adnoddau neu help gyda gweithgareddau crefft. Roedd y plant yn dod atom yn hyderus i siarad â ni am yr hyn yr oedden nhw'n ei wneud ac i drafod eu paentiadau ar y wal a'r lluniau sialc roedden nhw wedi'u creu ar y llawr y tu allan. Gwnaeth y plant siarad am eu lluniau a oedd wedi'u harddangos a'r 'cymeriadau' cyfeillgar i blant a oedd wedi'u paentio ar y waliau er mwyn gwneud iddyn nhw deimlo'n gysurus.

Mae’r plant wedi ymgartrefu, yn fodlon ac yn ymdopi'n dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni oherwydd yr amgylchedd cyfeillgar i blant cadarnhaol a oedd wedi'i greu ar eu cyfer.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dechrau gwneud ffrindiau ac yn dechrau dod yn ymwybodol o emosiynau pobl eraill.

Roedd y plant yn hapus i gymryd eu tro, rhannu adnoddau ac yn mwynhau gwneud pethau gyda'i gilydd â'u ffrindiau ac â'r rhai hynny a oedd yn gofalu amdanynt y rhan fwyaf o'r amser. Gwelsom blant yn ystod sesiwn chwarae awyr agored yn hapus i gymryd eu tro ar feiciau ac ar deganau y gellid eistedd arnynt a'u reidio. Roedd staff wrth law i roi ychydig o gymorth ychwanegol i'r plant hynny a oedd angen help i ddatrys sefyllfaoedd anodd. Er enghraifft, pan oedd y plant yn ei chael hi'n anodd rhannu adnoddau, rhoddwyd mwy o deganau iddynt ar unwaith. Daethpwyd â mwy o fygis allan pan welwyd fod y plant yn rhannu un yn unig, a gwnaeth staff ymyrryd a negodi gyda'r plant pan ddaeth cerbyd injan dân yn hoff degan iddynt.

Mae'r plant yn cydweithredu'n dda ac yn mwynhau cwmni ei gilydd, ac maen nhw'n gofyn am help pan fydd sefyllfaoedd yn mynd yn rhy anodd iddynt.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu?

Mae'r plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau y maen nhw'n eu mwynhau.

Roedd y plant yn hapus a chyda diddordeb yn y rhan fwyaf o'r gweithgareddau a gynigiwyd. Roedd ganddyn nhw gymhelliant naturiol i archwilio'r adnoddau a oedd ar gael yn yr ystafell chwarae ac yn yr awyr agored ac yn ystod gweithgareddau crefft dan arweiniad oedolyn. Aethpwyd â babanod ifanc iawn allan mewn bygis i wylio'u ffrindiau'n chwarae, roedden nhw'n mwynhau bod allan yn yr awyr iach ac yn profi ychydig o amser ar y llawr yn cropian neu'n defnyddio eitemau chwarae y gellid eu gwthio i'w helpu i gerdded o gwmpas.

Roedd plant yn ymuno â gweithgareddau strwythuredig wrth eistedd ar gadeiriau uchel neu wrth fwrdd yn ystod sesiynau'r bore a phrynhawn. Roedden nhw'n cael detholiad o luniau wedi'u torri i'w gludo ar bapur. Roedd gallu creadigol y plant yn cael ei gyfyngu ar adegau oherwydd prinder adnoddau a oedd yn cael eu rheoli gan staff. Fodd bynnag, roedden nhw'n datblygu rhai sgiliau, er enghraifft, defnyddio dyfais taenu glud, ond nid o reidrwydd sgiliau torri, pe bai nhw wedi gallu torri'r eitemau o'r catalog eu hunain.

Mae gan y plant ddiddordeb yn y profiadau sy'n cael eu darparu ar eu cyfer, ond gallai'r rhain gael eu gwella ymhellach. Mae plant cyn-ysgol yn gallu canolbwyntio am gyfnod priodol o amser.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau lle maen nhw'n datblygu rhai sgiliau ac yn cyflawni'r rhan fwyaf o bethau drostynt eu hunain.

Gwelsom blant yn arwain ac yn cyfarwyddo eu chwarae eu hunain ar feiciau, ar deganau y gellid eu reidio ac wrth wthio bygis. Roedden nhw'n dysgu bod yn annibynnol, er enghraifft, cafodd plentyn a oedd angen help i fynd ar feic ei gynorthwyo hyd nes yr oedd yn ddigon hyderus i fynd ar ei ben ei hun. Gofynnwyd i'r plant hongian eu cotiau a'u bagiau eu hunain yn y man neilltuedig ar ddechrau'r sesiwn, ac i wisgo'n briodol pan oedden nhw'n mynd allan neu adref. Roedden nhw hefyd yn cael eu hannog i olchi eu dwylo cyn amser byrbryd ac ar ôl defnyddio'r toiled, ac i arllwys eu diodydd eu hunain.

Gwnaeth rieni roi sylwadau cadarnhaol yn yr holiaduron Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a ddychwelwyd o ran y cynnydd a oedd yn cael ei wneud ar sgiliau annibyniaeth eu plant. Yn benodol, gwnaethant ganmol gallu eu plant i fwyta a gwisgo'n annibynnol, oherwydd roedd y ddau beth hyn wedi'u hannog ers oedden nhw'n ifanc. Fodd bynnag, nid oedd gweithgareddau crefft strwythuredig yn rhoi digon o gyfleoedd i blant ddysgu drostynt eu hunain.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i gwblhau rhai tasgau drostynt eu hunain, ond nid oedd yr holl weithgareddau wedi'u cynllunio'n briodol i ganiatáu i'r plant ddatblygu neu ymarfer sgiliau hanfodol ymhellach.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn annog ymddygiad cadarnhaol ac yn sicrhau bod plant yn cael ffiniau clir. Maen nhw'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ac i ddiwallu anghenion unigol yn briodol. Mae angen meddwl mwy wrth gynllunio gweithgareddau er mwyn sicrhau bod datblygiad unigol y plant yn cael ei ystyried a bod gweithgareddau'n cael eu gwella er mwyn darparu canlyniadau da ar gyfer y plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae gan staff ddealltwriaeth o'u dyletswyddau o ran cadw plant yn ddiogel.

Roedd y staff yn gyfarwydd â pholisi diogelu'r gwasanaeth, a oedd yn gynhwysfawr a newydd gael ei ddiweddaru. Roedd dogfennau y gwelsom yn dangos eu bod wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant ac roedd y staff yn gallu dweud wrthym am y gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe baent yn pryderu am blentyn. Y person cofrestredig yw'r cydgysylltydd amddiffyn plant, ac roedd ganddi wybodaeth a dealltwriaeth eang o ddiogelu fel y gwelwyd o'i phrofiadau blaenorol. Roedd gan y staff gymwysterau cyfredol mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig hefyd, a oedd yn golygu y gallent ymateb i argyfyngau a mân anafiadau. Gwelsom aelod o staff yn cynorthwyo plentyn yn fedrus i ddefnyddio anadlydd a siambr. Roedd y plentyn wedi ei leoli'n briodol i gael y budd llawn o'r feddyginiaeth. Roedd cofnodion cywir wedi'u cwblhau o ran rhoi'r feddyginiaeth. Roedd damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cofnodi'n briodol, a ffurflenni'n cael eu llofnodi gan y staff a'r rhieni. Roedd ymwelwyr â'r gwasanaeth a phresenoldeb plant wedi'u cofnodi bob dydd mewn dyddiadur.

Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau priodol wrth newid cewynnau. Gwelsom fenig yn cael eu defnyddio wrth newid cewynnau, ac yn cael eu diosg cyn gwisgo'r plant. Anogwyd y plant i olchi eu dwylo ac roedden nhw'n defnyddio'u tywelion llaw eu hunain. Dilynwyd gweithdrefnau priodol hefyd wrth baratoi byrbrydau er mwyn rheoli lledaeniad germau. Gwelsom staff yn glanhau arwynebau, yn golchi eu dwylo ac yn defnyddio menig a ffedogau untro wrth baratoi byrbryd, ac roedd rhai ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol ar hylendid bwyd.

Roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddilyn ffyrdd iach o fyw hefyd trwy dreulio amser yn yr awyr agored, a oedd yn eu galluogi i fod yn egnïol gorfforol ac i fod yn yr awyr iach. Rhoddwyd cinio cartref iach a maethlon i'r plant o bastai datws stwnsh, moron, brocoli a thatws stwnsh gydag iogwrt cartref i bwdin. Darparwyd byrbrydau o ffrwythau a brechdanau gyda dŵr neu laeth i'w yfed.

Mae'r staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau ac yn awyddus i ddilyn y gweithdrefnau'n effeithiol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac iach a chyflawni gwobr 'Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy' sir Ddinbych.

## 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae'r staff yn annog plant i ymddwyn yn briodol ac i fod yn gwrtais gan ddefnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol.

Roedd y staff yn siarad â'r plant mewn ffordd gynnes a serchog. Clywsom aelod o'r staff yn gofyn i blentyn yn gwrtais, 'der i lawr o'r ffens' pan oedd wedi ei dringo i weld ceffyl yn carlamu ar draws cae. Roedd y staff yn arwain trwy esiampl hefyd drwy ymddwyn mewn modd cadarnhaol a helpu'r plant i ddysgu'r hyn a ddisgwylid ganddynt. Er enghraifft, roedd yn rhaid i'r plant dacluso'r bwyd chwarae ffug cyn i'r staff ddod â'r 'Octons' a'r rilenni cotwm allan. Ymatebwyd yn briodol i 'mae'n rhaid i ni dacluso'n gyntaf', a rhoddwyd canmoliaeth pan oedd hyn wedi'i gwblhau. Pan oedd plentyn eisiau helpu i roi dŵr i faban, cafodd ei gyfarwyddo a'i helpu, ac fe’i atgoffwyd i fod yn ofalus. Roedd y staff hefyd yn annog plant i chwarae â nhw pan oeddent yn gweld nad oeddent yn cymryd rhan mewn gweithgaredd gyda phlant eraill.

Gwelsom ddigonedd o ryngweithio hyfryd rhwng y plant, a chanmolwyd hyn yn gyson gan y staff. Cafodd plentyn ei annog i reidio ar draws y patio gan ddefnyddio'i draed i wthio'i hunan ar degan y gellid eistedd arno a'i reidio, a chafodd 'bump uchel' pan lwyddodd i'w wneud. Cafodd yr un plentyn ei ganmol pan gerddodd ar draws y patio gan ddefnyddio bygi tegan i'w gynorthwyo i gerdded. Roedd cwrteisi hefyd yn cael ei annog gyda rhai awgrymiadau cynnil, ac roedd canmoliaeth yn cael ei rhoi pan oedd y plant yn dweud 'os gwelwch yn dda' neu 'diolch'.

Mae gan y staff gydberthynas dda â'r plant, ac maen nhw’n arwain trwy esiampl trwy fodelu ymddygiad da a rhyngweithio caredig.

## 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn ymwybodol o sut i gefnogi ac ymateb i anghenion unigol y plant.

Roedd staff wrth law i ateb cwestiynau, ac roedd hyn yn galluogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth yn ystod gweithgareddau chwarae.  Gwnaed hyn mewn modd hamddenol yr oedd y plant yn gyfforddus ag ef. Roedd y cwestiynau wedi'u hanelu at lefel dealltwriaeth y plant, a chynigiwyd cymorth ychwanegol i'r plant hynny lle nad Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf.

Roedd y staff yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu hanghenion unigol. Fodd bynnag, wrth chwarae yn yr awyr agored, nid oedd y staff yn ystyried pa adnoddau fyddai eu hangen i wella dysgu'r plant ymhellach, er enghraifft, nid oedd doliau wedi'u darparu, ac roedd y plant yn gwthio bygis gwag o gwmpas trwy gydol y sesiwn chwarae. Roedd y staff yn adnabod pa blant fyddai angen mwy o gymorth i ganolbwyntio ar weithgareddau fel paentio a gwaith sialc, ac yn darparu'r cymorth yn unol â hynny. Roedd y staff yn cysuro

plant hefyd ac yn egluro pethau iddynt yn dda iawn, er enghraifft, cafodd plentyn a oedd yn poeni bod rhywbeth yn sownd yng nghorff ei feic gynnig cymorth i'w gael allan. Defnyddiodd y staff blycwyr a gwnaethant ddefnyddio iaith eang i ddisgrifio'r hyn roedden nhw'n ei wneud i'r plentyn, gan awgrymu bod y gwrthrych yn 'chwalu' wrth ddefnyddio'r plycwyr.

Gwnaethom argymell y dylai plant allu mynd allan i'r awyr agored ar bob adeg, a dylai cael tri aelod o staff yn gofalu am y plant hwyluso hyn.

Mae’r staff yn diwallu anghenion y plant maen nhw'n gofalu amdanynt yn briodol, ond byddai gwelliannau yn y gwaith cynllunio'n creu'r cyfleoedd mwyaf ar gyfer dysgu.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel, a bod risgiau’n cael eu lleihau lle bo’n bosibl. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn ardal wledig gyda chaeau o dda byw a choetiroedd yn ei amgylchynu. Mae cyfleusterau marchogaeth cyfagos yn darparu rhagor o gyfleoedd am brofiadau ac arsylwadau awyr agored. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac mae pob man yn groesawgar ac yn ddiddorol i blant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r offer yn addas ac yn briodol i oedrannau'r plant.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn gweithredu mewn modd cyson er mwyn sicrhau diogelwch yr amgylchedd.

Roedd y drysau i'r adeilad yn cael eu cadw dan glo a gofynnwyd i ni ddangos ein dogfennaeth adnabod pan wnaethom gyrraedd yr adeilad. Roedd hyn yn atal mynediad heb awdurdod, gan sicrhau bod y plant yn ddiogel. Roedd yr arweinwyr wedi nodi peryglon o fewn y safle, ac roedd y rhain wedi'u cynnwys mewn asesiadau risg ysgrifenedig. Er enghraifft, roedd y staff hefyd yn gwneud gwiriadau dyddiol o bob ardal cyn i'r plant gyrraedd y safle. Trwy gydol y diwrnod, gwelsom fod yr arweinwyr wedi sicrhau diogelwch y plant trwy ddefnyddio harneisiau pum pwynt ar gadeiriau uchel a bygis, stopiau drysau, gatiau diogelwch a sgriniau tân pan oedd angen. Roedd yr amgylchedd yn lân ac wedi'i ailaddurno'n ddiweddar.

Roedd cofnodion yn dangos bod ymarferion tân wedi'u cynnal pan ddechreuodd staff newydd yn y gwasanaeth yn ddiweddar, ond roedd y cofnodion yn dangos eu bod fel arfer yn cael eu trefnu bob yn ail fis. Gwnaethom argymell y dylid cadw'r fynedfa a'r mynediad i'r ystafell chwarae trwy'r man bwyta yn glir fel nad ydynt yn rhwystro pobl rhag gadael y safle mewn argyfwng. Argymhellwyd hyn oherwydd bod bygis a ddefnyddiwyd i blant gysgu ynddyn nhw wedi'u gadael yng nghyntedd y fynedfa pan wnaethom gyrraedd am ein hymweliad cyntaf. Roedden nhw wedi'u storio o’r neilltu ar ôl i ni gyrraedd, ac roedd cadeiriau uchel yn cael eu defnyddio yn yr ystafell fwyta. Roedd archwilwyr allanol wedi'u defnyddio i wirio'r holl offer a'r cofnodion diogelwch tân ym mis Hydref 2017.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod y safle'n ddiogel a bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Gellid gwella'r gwaith storio, ond mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn ddiogel ac yn groesawgar.

Roedd yr arweinwyr wedi gwneud defnydd da o'r gwagle y tu mewn trwy gael ystafell chwarae lle gallai'r plant ifanc chwarae'n ddiogel ynddi ac ystafell gweithgareddau chwarae

anniben / pen bwrdd a oedd yn cael ei defnyddio hefyd ar gyfer amserau bwyd. Nid oedd yr ystafell chwarae wedi'i gosod fesul ardaloedd dysgu, ond yn hytrach, roedd wedi'i gadael fel gwagle rhydd lle gallai'r plant chwarae gyda'r teganau roedden nhw wedi'u dewis. Roedd yr ystafell chwarae'n olau, yn lliwgar ac yn groesawgar, gyda lluniau a golygfeydd 'Winnie the Pooh' wedi'u paentio ar y waliau a oedd yn briodol i oedran y plant.

Roedd adnoddau dysgu a chwarae'n cael eu storio a'u labelu gyda lluniau ar silffoedd uchel, mewn unedau storio ac mewn cwpwrdd o dan y grisiau.  Storiwyd bygis yng nghyntedd y dderbynfa am gyfnodau byr, ac nid oedd hyn yn ddelfrydol. Byddai mannau storio gwell yn galluogi'r staff a'r plant i symud o amgylch yn fwy rhydd heb berygl o gael eu niweidio.

Roedd y waliau'n lliwgar gyda phosteri addysgol a lluniau wedi'u harddangos, er enghraifft, roedd siart tywydd, llythrennau a rhifau wedi'u harddangos yn yr ardal chwarae anniben. Roedd digonedd o samplau o waith y plant hefyd, yn yr ystafell chwarae ac yng nghyntedd y fynedfa, a oedd yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant. Roedd y man awyr agored yn cynnig gwagle i fynd ar gefn beiciau, rhedeg o gwmpas a chymryd rhan mewn gweithgareddau a oedd wedi'u gosod ar eu cyfer. Roedd yr amgylchedd lleol yn cael ei ddefnyddio'n dda; gwelwyd hyn yn y ffotograffau a welsom.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod dysgu'r plant yn cael ei ehangu o fewn amgylchedd cysurus a chroesawgar sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r offer yn addas i anghenion y plant ac yn cynyddu eu dysgu a'u datblygiad.

Mae'r arweinwyr yn darparu teganau ar gyfer y plant sydd mewn cyflwr da ac sy'n addas ar gyfer oedrannau a chyfnodau datblygiad y plant. Canfuom fod yr adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd adnoddau ac offer addas ar gael i gynorthwyo annibyniaeth y plant, megis grisiau a seddau i'w cynorthwyo i ddysgu defnyddio'r poti. Defnyddiwyd bwrdd fwyta a phum cadair uchel yn ystod amser cinio. Yn ystod amserau cysgu, roedd y plant yn defnyddio eu dillad gwely eu hunain ac yn cysgu ar fatresi neu mewn bygis.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad at ystod eang o adnoddau o ansawdd da.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae’r arweinwyr yn awyddus i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau. Mae perthnasau da wedi'u meithrin â rhieni, a chaiff gwybodaeth ei rhannu'n effeithiol. Fodd bynnag, nid oedd yr arweinwyr yn gallu darparu digon o dystiolaeth eu bod yn ystyried safbwyntiau rhieni, staff a phlant wrth edrych ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir neu sut maen nhw'n cynllunio ar gyfer gwelliannau. Dyma oedd yr arfer yn y gorffennol, ond mae'r newidiadau staff diweddar wedi caniatáu amser i'r arweinwyr fyfyrio, ac maen nhw'n bwriadu gwerthuso'r gwasanaeth yn llawn yn ystod y chwe mis nesaf, gan roi amser i staff newydd ymgartrefu.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod polisïau ar waith a bod nodau ac amcanion y gwasanaeth yn eglur i'r holl staff a'r rhieni/gofalwyr. Mae'r gwasanaeth y maen nhw'n ei ddarparu'n cwrdd â disgwyliadau'r rhai hynny sy'n ei ddefnyddio.

Archwiliwyd y ddogfennaeth, a chanfuwyd ei bod yn gynhwysfawr ac yn briodol i'r gwasanaeth. Cadarnhaodd y rhieni yn eu holiaduron AGC eu bod wedi cael y ddogfennaeth, y polisïau a'r gweithdrefnau yr oedd arnynt eu hangen, ac roedd pob un ohonynt yn cytuno'n gryf bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda. Cadarnhaodd aelod o staff a oedd yn newydd i'r gwasanaeth fod y polisïau a'r gweithdrefnau wedi'u trafod yn llawn, yn ogystal ag anghenion unigol y plant, megis anoddefiadau lactos ac asthma, yn fuan ar ôl iddo ddechrau gweithio yn y gwasanaeth.

Clywsom y staff yn siarad Cymraeg drwy gydol y dydd a hefyd yn cynnig cymorth yn Saesneg i blant nad oeddent yn gallu deall Cymraeg. Roedd yr arweinwyr a’r staff i gyd wedi ymrwymo i ddarparu’r ‘Cynnig Gweithredol’ ac i hybu’r defnydd o’r Gymraeg. Roedd y polisïau'n gynhwysfawr ac yn cynnwys llawer o wybodaeth, a oedd yn galluogi'r staff i ddeall eu cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn. Roedd y rhain wedi'u diweddaru'n ddiweddar.

Gwnaethom argymell fod person â gofal cyflenwol yn cael ei benodi i weithio pan fydd y person cofrestredig/person â gofal yn absennol. Pan fydd y broses hon yn cael ei chwblhau, bydd angen diweddaru'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth ac anfon copi i AGC.

Roedd polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith a'r dystysgrif wedi'i harddangos mewn man amlwg yn y gwasanaeth.

Mae’r arweinwyr yn awyddus i sicrhau y cydymffurfir â’r polisïau a gweithdrefnau ac i hybu’r defnydd o’r Gymraeg.

## 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Yn y gorffennol, mae’r arweinwyr wedi adolygu ansawdd y gofal a gynigir yn y gwasanaeth trwy gasglu ac ystyried yr adborth gan rieni, staff a phlant.

Dywedodd y person â gofal, sydd hefyd yn berson cofrestredig, wrthym ei bod yn casglu adborth ynghylch y gwasanaeth gan rieni a staff yn rheolaidd, ar lafar a thrwy holiaduron a anfonir bob blwyddyn. Oherwydd newidiadau staff diweddar, nid yw'r broses hon wedi'i chwblhau ar gyfer y flwyddyn hon eto. Mae'r person cofrestredig yn bwriadu cwblhau datganiad hunanasesu gwasanaeth AGC yn ystod y chwe mis nesaf a dadansoddi'r holiaduron hynny a dderbyniwyd yn ôl eisoes. Dangosodd holiaduron Arolygiaeth Gofal Cymru fod rhieni'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r datganiadau ynghylch ansawdd y gwasanaeth, byddent yn argymell y gwasanaeth, yn defnyddio'r gwasanaeth ar gyfer brodyr a chwiorydd ac maen nhw'n hyderus y bydd eu plant yn hapus a byddant yn datblygu ac yn tyfu.

Mae'r arweinwyr yn arddangos y polisi cwynion ar yr hysbysfwrdd yn y fynedfa ac yn croesawu adborth a chyfleoedd i wneud gwelliannau pan dynnir sylw atynt. Nid oedd unrhyw bryderon wedi'u nodi yn y llyfr cwynion ac nid oedd unrhyw adborth negyddol wedi dod i law fel rhan o'r adolygiad ansawdd gofal yn y gwasanaeth hwn y llynedd.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau ar waith i fyfyrio ar arferion ac adolygu ansawdd y gofal a ddarperir.

## 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae arweinwyr yn awyddus i sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n dda a'u bod yn cael eu cynorthwyo i gyflawni eu rolau yn effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod tri aelod o staff ar gael ar bob adeg i ofalu am hyd at 12 o blant bob diwrnod; mae hyn yn cynnwys y person cofrestredig/ person â gofal. Mae staff cyflenwi a staff brys ar gael i alw arnynt ar fyr rybudd. Mae aelod o staff cyflenwi a myfyriwr wedi'u penodi yn y gwasanaeth yn ddiweddar. Y person cofrestredig ac un aelod arall o'r staff yw'r unig rai sydd wedi bod yn y gwasanaeth am fwy na 12 mis. Roedd y ffeiliau staff yn gyflawn a gwelsom dystiolaeth o arfarniadau blynyddol blaenorol. Mae prosesau recriwtio cadarn wedi'u dilyn, a phan oedd staff anghymwys wedi'u cyflogi, gwnaeth y person cofrestredig ein sicrhau bod y bobl hyn yn adnabyddus iawn iddi, eu bod yn addas, eu bod wedi profi y gallent ryngweithio'n briodol â phlant a'u bod yn awyddus i ddysgu a chofrestru ar gyrsiau addas er mwyn ennill cymwysterau.

Mae'r arweinwyr yn dilyn proses recriwtio gadarn fel y gallant sicrhau bod darpar staff yn briodol i weithio gyda phlant.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod partneriaethau cadarnhaol yn bodoli rhwng y staff, y rhieni ac asiantaethau cymorth lleol.

Mae'r arweinwyr yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni, gofalwyr, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Ddinbych a'r asiantaethau y maen nhw'n gweithio gyda nhw i wella ansawdd y gofal yn y gwasanaeth, er enghraifft, mae'r gwasanaeth wedi ennill gwobr lefel 3 gyda'r cynllun 'Cyn-ysgolion Iach a Chynaliadwy' ac mae wedi gweithio mewn partneriaeth agos â'r rhwydwaith cymorth hwn.

Gwelsom dystiolaeth yn y ffeil o wybodaeth a gasglwyd gan rieni a oedd yn nodi anghenion penodol, hoffterau a chasbethau'r plant. Roedd gan y staff gydberthnasau cadarnhaol â’r rhieni ac yn rhannu gwybodaeth â nhw ar lafar ar ddiwedd pob sesiwn. Roedd gwybodaeth am y staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth, fel eu henwau a'u cymwysterau, wedi'u harddangos yn y fynedfa hefyd, fel y gallai rhieni newydd ddysgu am y bobl a fyddai'n gofalu am eu plant. Cedwid copïau o bolisïau'r gwasanaeth yn y fynedfa hefyd, fel y gallai'r rhieni gael gafael arnynt yn hawdd, yn ogystal â samplau o waith y plant, a oedd wedi'u harddangos yn falch ar y waliau er mwyn i'w rhieni eu gweld. Mae gan y mwyafrif o'r plant ddyddiadur cartref/meithrinfa, a dylai'r rhieni hynny sydd eisiau parhau â'r ffordd hon o gyfathrebu hysbysu'r person cofrestredig. Daw hyn yn sgil sylw a gyflwynwyd mewn holiadur AGC.

Roedd pedwar rhiant a ddychwelodd holiaduron AGC atom yn hynod gefnogol o'r gwasanaeth, gan wneud sylwadau fel 'ni ellir rhoi gwerth ar ansawdd y gofal a ddarperir', 'mae'n feithrinfa wych' ac 'mae plant yn datblygu sgiliau'n gynnar' ac 'mae brodyr a chwiorydd wedi mynychu a byddem yn argymell y feithrinfa hon i eraill'. Roedd y rhieni'n gwerthfawrogi'r prydau bwyd cartref hefyd, a gwnaethant ychwanegu bod eu plant yn mwynhau dod â llysiau a dyfwyd gartref i'r feithrinfa a bwyta'r rhai hynny y maen nhw'n eu tyfu ar dir y feithrinfa.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cydweithio’n agos â’r rhieni, a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y canlynol:

- bod y person cofrestredig yn enwebu person â gofal cyflenwol ar gyfer y gwasanaeth i reoli'r feithrinfa yn absenoldeb y person cofrestredig a'r person â gofal cyfredol, a'i fod yn diwygio'r datganiad o ddiben i ddangos y newid hwn

- dylid sicrhau bod llwybr clir o gyntedd y fynedfa a'r mynediad i'r ystafell chwarae trwy'r man bwyta ar bob adeg, er mwyn galluogi'r staff a'r plant i adael yn ddiogel mewn argyfwng

- dylai'r staff gofnodi a gwerthuso datblygiad y plant a defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio gweithgareddau priodol

- dylid sicrhau bod adnoddau chwarae ar gael i'r plant er mwyn iddynt elwa i'r eithaf ar eu cyfleoedd dysgu, er enghraifft, byddai rhoi mynediad uniongyrchol i blant at ddoliau i'w rhoi mewn bygis, ac adnoddau fel offer coginio yn y man chwarae cegin, a rhoi'r gallu iddynt chwarae y tu allan fel y mynnant yn rhoi rhyddid i'r plant ddewis a gwella eu llesiant.

.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd, llawn a gynhaliwyd yn rhan o’n hamserlen arferol o arolygiadau.

Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ar 12 Ebrill 2018 rhwng 10am a 12.05pm ac ar 16 Ebrill 2018 rhwng 9.30am a 4.55pm.

Gwnaethom:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu gan staff
- siarad â'r plant, y staff, y person â gofal/person cofrestredig a'r rhieni a oedd yn casglu'r plant ar y diwrnod
- archwilio'r holiaduron AGC a ddychwelwyd gan staff a rhieni
- edrych ar y mannau yr oedd plant yn eu defnyddio a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad
- rhoi adborth manwl i’r person cofrestredig

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd plant**<br>**Gofal dydd llawn** |
| **Person cofrestredig** | **Anna Roberts** |
| **Person â gofal** | **Anna Roberts** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **12** |
| **Ystod oedran y plant** | **Rhwng geni a 12 mlwydd oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 5.30pm.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy iaith** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **3 Mawrth 2016** |
| **Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn** | **12 a 16 Ebrill 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Nac ydy, ond mae'n gweithio tuag at gyflawni hyn** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |